

9 Medi 2021

Annwyl

ATISN 15425 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Diolch am eich cais am wybodaeth a gefais ar 13 Awst 2021. Gweler ein hymateb isod.

1) Eich dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Mae Gweinidogion Cymru yn un o 44 o gyrff cyhoeddus y mae dyletswyddau statudol ganddynt o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ymhlith dyletswyddau Gweinidogion Cymru mae-

- gwneud gwaith datblygu cynaliadwy gyda'r nod o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru
- pennu a chyhoeddi amcanion llesiant
- cyhoeddi dangosyddion a cherrig milltir cenedlaethol
- cyhoeddi Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol, a fydd yn darparu tystiolaeth o gynnydd a thueddiadau tebygol y dyfodol er mwyn helpu'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau.

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn cyflawni ei swyddogaethau arolygu a rheoleiddio ar ran Gweinidogion Cymru, ac mae'n ceisio cefnogi amcanion llesiant Gweinidogion Cymru.

Mae'r saith Nod Llesiant a'r pum ffordd o weithio a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sail i'n gwaith, yn yr un modd ag y mae'r diben cyffredin a ddisgrifir yn Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru, sydd, gyda'i gilydd, yn darparu fframwaith sy'n llywio ein penderfyniadau am y gwaith a wnawn. Wrth wneud penderfyniadau am y gwaith a wnawn drwy arolygu, adolygu a gwaith dilynol, rydym yn ystyried anghenion byrdymor a hirdymor cleifion ac yn cydweithio â phartneriaid, cleifion a'r gymuned i gefnogi gwelliant.

2) Y berthynas rhwng eich dyletswyddau o dan y Ddeddf hon a phwerau gorfodi o dan ddeddfwriaeth a rheolau eraill (gan gynnwys is-ddeddfwriaeth neu ganllawiau gorfodi ac ati)

Gwirio bod pobl yng Nghymru
yn derbyn gofal da

Checking people in Wales are
receiving good care

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ymwneud â gwella gofal iechyd yn ei gyd-destun cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a llesiant

ehangach. Felly mae'n ategu ysgogiadau deddfwriaethol eraill ar gyfer gwella ac yn golygu bod yn rhaid i ni weithio mewn modd cynaliadwy, a meddwl am yr effaith y gall ein gwaith ei chael ar bobl sy'n byw yng Nghymru, nawr ac yn y dyfodol.

Ein rôl yw gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn cael gofal iechyd diogel ac effeithiol o ansawdd da. Rydym yn rheoleiddio ac yn arolygu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol ac yn arolygu byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru. Drwy ein proses arolygu, rydym yn nodi meysydd o bryder ac yn annog darparwyr i gymryd camau i wella eu gwasanaethau gofal iechyd. Rydym yn cymryd camau gorfodi yn erbyn darparwyr cofrestredig sy'n methu â chydymffurfio â gofynion rheoliadol ac yn golygu bod pobl yn wynebu risg o niwed. Rydym hefyd yn cymryd camau gorfodi yn erbyn unigolion sy'n cynnal neu'n rheoli gwasanaeth gofal iechyd heb gael eu cofrestru i wneud hynny o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn gwneud i gyrrff cyhoeddus yng Nghymru, megis y GIG, feddwl am gynlluniau hirdymor, cydweithio'n agosach â phobl a chymunedau a gweithio mewn ffordd fwy cydgysylltiedig. Caiff y maes hwn ei ystyried fel rhan o waith cynllunio strategol a gweithredol AGIC, a thrwy waith a wneir ar y cyd â nifer o sefydliadau allweddol eraill lle rhoddir ystyriaeth fanwl i integreiddio gwasanaethau'r GIG a Gwasanaethau Cymdeithasol.

3) **Eich dehongliad, neu drafodaethau ynghylch y berthynas rhwng Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a deddfwriaeth arall (gan gynnwys is-ddeddfwriaeth neu ganllawiau gorfodi ac ati)**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ategu deddfwriaeth arall yn nhermau gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r Ddeddf hon yn ein hatal nac yn ein rhwystro rhag arfer ein dyletswyddau a'n pwerau statudol o dan y ddeddfwriaeth ganlynol –

- Deddf Safonau Gofal 2000 (fel y'i diwygiwyd)
- Rheoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002 (fel y'i diwygiwyd)
- Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011
- Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003
- Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017
- Deddf Erthyliad 1967 (fel y'i diwygiwyd)

Noder bod yr ymateb hwn hefyd yn ateb cwestiynau 4, 5 a 6.

- 4) **Eich dehongliad, neu drafodaethau ynghylch y berthynas rhwng Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a deddfwriaeth arall wrth gymryd camau gorfodi (gan gynnwys is-ddeddfwriaeth neu ganllawiau gorfodi ac ati)**

Gweler yr ymatebion i gwestiynau 2 a 3.

- 5) **Unrhyw ystyriaeth a roddwyd i'r berthynas neu'r cysylltiad neu'r rhyngweithio rhwng Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac unrhyw gamau gorfodi rydych wedi'u cymryd, gan gynnwys a roddwyd ystyriaeth i'r Ddeddf hon wrth benderfynu cymryd camau gorfodi mewn unrhyw achos/achosion gorfodi/cyfreithiol.**

Gweler yr ymatebion i gwestiynau 2 a 3.

- 6) **Unrhyw gyngor, canllawiau, arweiniad, sgwrs, trafodaeth, sylwadau neu ddogfen arall (gan gynnwys nodiadau ar bapur, e-byst ac mewn unrhyw fformat arall) ar y berthynas rhwng Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'ch pwerau gorfodi neu eich prosesau gwneud penderfyniadau**

Mae ein gwaith wedi'i lywio gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Gwnaethom nodi hyn yn ein strategaeth tair blynedd, "Gwneud Gwahaniaeth" 2018-21, ac yn ein Cynllun Strategol a Gweithredol 2021-22.

[Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru – Gwneud Gwahaniaeth – Cynllun Strategol 2018-2021](#)

[Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru – Cynllun Strategol a Gweithredol 2021-2022](#)

Gweler hefyd yr ymateb i gwestiwn 3.

- 7) **Manylion unrhyw gyhoeddiad, adroddiad, e-bost ac ati rydych wedi'i gyhoeddi, naill ai i'r cyhoedd neu i drydydd partion (e.e. adroddiadau i gyrrff eraill) sy'n trafod eich dealltwriaeth neu eich cymhwysiad o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i bwerau gorfodi a phenderfyniadau ynghylch cymryd camau gorfodi.**

Gweler yr ymatebion i gwestiwn 6.

- 8) **Manylion unrhyw hyfforddiant a roddwyd i staff sy'n ymwneud â phenderfyniadau polisi neu benderfyniadau gorfodi ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a pha staff (hynny yw staff ym mha rolau, nid enwau'r staff unigol) a oedd wedi derbyn yr hyfforddiant hwnnw a chopi o'r hyfforddiant (sleidiau PowerPoint, dogfennau, fideos ac ati a roddwyd i'r staff) gan gynnwys dyddiad yr hyfforddiant hwnnw.**

Mae hyfforddiant ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar gael i bob aelod o'r staff a theitl y sesiwn yw "Dyfodol Disglair – Cyflwyniad i Y Pum Ffordd o Weithio". Nid oes unrhyw sleidiau PowerPoint ar gael, am mai sesiwn ar-lein ryngweithiol ac ymarferol fewnol yw hon.

Mae'r fideos hyfforddiant canlynol sy'n codi ymwybyddiaeth o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd ar gael i bob aelod o'r staff ar wefan hyfforddiant Llywodraeth Cymru:

[Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015 \(YouTube\)](#)

[Cyfnewid Syniadau Cenedlaethau'r Dyfodol – Mair Elliott \(Fideo Microsoftstream\)](#)

[Cyfnewid Syniadau Cenedlaethau'r Dyfodol – Anthony Zacharzewski \(Fideo Microsoftstream\)](#)

[Cyfnewid Syniadau Cenedlaethau'r Dyfodol – Cat Tully \(Fideo Microsoftstream\)](#)

[Cyfnewid Syniadau Cenedlaethau'r Dyfodol – Doreen Grove \(Fideo Microsoftstream\)](#)

[Cyfnewid Syniadau Cenedlaethau'r Dyfodol – Prif Weinidog Cymru \(Fideo Microsoftstream\)](#)

[Cyfnewid Syniadau Cenedlaethau'r Dyfodol – Chris Roscoe \(Fideo Microsoftstream\)](#)

[Cyfnewid Syniadau Cenedlaethau'r Dyfodol – Nigel Richardson \(Fideo Microsoftstream\)](#)

[TEDx: Sophie Howe – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol \(Darlith TED\)](#)

Nid oes gennym gofnod o'r aelodau o'r staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol nac sydd wedi defnyddio'r fideos Hyfforddiant Ymwybyddiaeth uchod.

Os nad ydych yn fodlon ar y ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio unrhyw geisiadau am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru yn:

Uned Hawliau Gwybodaeth
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd,
CF10 3NQ

neu gellir anfon e-bost i: Rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch ddyfynnu'r rhif cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych yr hawl hefyd i gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: Information Commissioner's Office,
Wycliffe House,
Water Lane,

Wilmslow,
Cheshire,
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylid nodi na fydd y Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn tan ar ôl iddi fynd drwy ein proses adolygu mewnol ein hunain.

Yn gywir